**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 14 Mehefin 2016**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes | Cadeirydd |
| Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Huw Davies | |
| Jo Price | |
| Ifan Lloyd | |
| David Davies | |
| Moss Jones | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Carol Harris | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Chris Hale | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Janet Perry | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Gavin Watkins | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) (Eitem 4) |
| Laura Griffiths | Amaethyddiaeth – Is-adran Datblygu Cynaliadwy (A-SDD) (Eitem 7) |
| Irene Allen | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) (Eitem 8&9) |
| Gareth Beili Jones | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) (Eitem 8&9) |
| | |
| Eirwen Williams | Menter a Busnes (Eitem 7) |
| Dewi Hughes | Menter a Busnes ( Eitem 7) |
| Sarah Gould | Lantra (Eitem 7) |
| Claire Lawson | Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW) (Eitem 8) |

**Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i nawfed cyfarfod y Grŵp. Eglurodd y Cadeirydd y byddai Eirwen Williams, Dewi Hughes (Menter a Busnes) a Sarah Gould (Lantra) yn ymuno â'r cyfarfod ar gyfer eitem 7 ar yr agenda. Eglurodd y byddai'n gyfle i'r Grŵp drafod ac ystyried sut y byddai modd iddynt wneud defnydd gwell o Cyswllt Ffermio i helpu iddynt gyflawni eu blaenoriaethau. Eglurodd hefyd y byddai Claire Lawson yn ymuno â'r cyfarfod ar gyfer eitem 8 ar yr agenda i roi'r newyddion diweddaraf ar y gwaith oedd yn cael ei wneud ar y codau ymarfer anifail anwes a materion ehangach. Hefyd byddai Irene Allen a Gareth Beili Jones o'r Tîm Llesiant yn ymuno â'r cyfarfod ar gyfer eitemau 8 a 9 ar yr agenda.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r 3ydd Mawrth**

2. Eglurodd y Cadeirydd bod y cofnodion terfynol a'r pwyntiau gweithredu diweddaraf o'r cyfarfod diwethaf wedi eu hanfon mewn ebost at Aelodau'r Grŵp fel rhan o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn.

3. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Y Diweddaraf am Safonau'r Gymraeg**

4. Eglurodd y Cadeirydd bod Safonau'r Gymraeg wedi dod i rym ar 30 Mawrth 2016. Eglurodd bod y rhain yn gyfres o ofynion sydd wedi'u rhwymo mewn cyfraith sy'n anelu at wella'r gwasanaethau dwyieithog y mae disgwyl i bobl Cymru eu derbyn gan eu Llywodraeth. Cytunodd y Grŵp ei bod yn bwysig iawn i gydymffurfio â'r Safonau hyn.

5. Eglurodd y Cadeirydd, yn unol â Safonau'r Gymraeg, bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi ysgrifennu at y Grŵp i sefydlu ym mha iaith yr hoffent gynnal eu cyfarfodydd. Diolchodd i bawb am ymateb i ebost yr Ysgrifenyddiaeth gan gadarnhau, er bod rhan fwyaf y Grŵp yn siaradwyr Cymraeg, y consenswsoedd y byddai'r cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal yn y Saesneg. Roedd yr aelodau yn cytuno â hyn.

6. Cadarnhawyd y byddai cofnodion y cyfarfod yn parhau i gael eu cyhoeddi yn ddwyieithog ac y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn parhau i roi gwybodaeth i'r Grŵp am Safonau'r Gymraeg.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Y Diweddaraf gan y Cadeirydd**

7. Rhoddodd y Cadeirydd y newyddion diweddaraf fel a ganlyn;

a) **Cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd 16 Mawrth**
Eglurodd y Cadeirydd fod ei gyfarfod olaf gyda'r Dirprwy Weinidog ar y 16eg Mawrth. Rhoddod y newyddion diweddaraf am y gwaith y mae'r Grŵp yn ei wneud ar les anifeiliaid anwes, gyda chydweithrediad Rhwydwaith Lles Cymru ar y codau lles.
Eglurodd bod codi ymwybyddiaeth ymysg ffermwyr o AMR yn parhau i fod yn flaenoriaeth amlwg i'r Grŵp a bod John Fitzgerald sy'n gadeirydd RUMA yn bresennol yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr. Rhoddodd y newyddion diweddaraf hefyd ar y datblygiadau o ran y clafr. Yn olaf diolchodd i'r Dirprwy Weinidog am gymeryd diddordeb yng ngwaith y Grŵp gan ddymuno'r gorau iddi ar gyfer y dyfodol.

Eglurodd y Cadeirydd ei fod yn edrych ymlaen at gyfarfod â Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gweldig. Cytunwyd y byddai'r Grŵp yn gwahodd Ysgrifennyd y Cabinet i gyfarfodydd yn y dyfodol ac y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ceisio trefnu cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhyngddi hi a'r Cadeirydd.

***Pwynt Gweithredu 1 > Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â'r Swyddfa Breifat i wahodd Ysgrifennydd y Cabinet i gyfarfod o'r Grŵp yn y dyfodol a sefydlu cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn gyda'r Cadeirydd.***

**b) Cyfarfod Cyswllt Ffemrio 12 Ebrill**
Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod polisi Cyswllt Ffermio ar 12 Ebrill. Y prif faterion i'w trafod oedd y blaenoriaethau o ran iechyd a llesiant anifeiliaid sy'n cynnwys bioddiogelwch, AMR ac ati. Eglurodd ei fod ef a Christianne wedi bod yn brif siaradwyr hefyd mewn 2 noson agored Cyswllt Ffermio. Bydd mwy o'r rhaglenni hyn dros y misoedd nesaf.

c) **Cyfarfod Grŵp Partneriaeth Strategol 17 Mai**

Eglurodd y Cadeirydd ei fod ef a Christianne wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod Partneriaeth Strategol ar 17 Mai. Eglurodd bod y trafodaethau wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a sut y gallai'r grwpiau gydweithio. Mae Kevin Roberts, Cadeirydd y Grŵp Partneriaeth Strategol Amaethyddiaeth wedi ei wahodd i fod yn bresennol yng nghyfarfod Medi. Cynhelir cyfarfodydd hefyd gydag Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd y Diwydiant Bwyd a Diod. Cytunwyd hefyd y byddai'r Grŵp yn rhannu cofnodion ac agendâu.

Mae Ysgrifenyddiaethau'r Grŵp hefyd yn cydweithio i gyfnewid gwybodaeth i wella'r gweithio mewn partneriaeth rhwng y Grwpiau.

**d) Y diweddaraf am y clafr**

Cafwyd cadarnhâd gan Ifan a Moss bod yr arolwg i ystyried pa mor gyffredin yw'r clafr yng Nghymru wedi cau gyda dros 900 o atebion. Mae canlyniadau'r arolwg bellach yn cael eu dadansoddi. Mae'n bosibl y bydd cyfweliadau manwl pellach yn cael eu cynnal fel rhan o'r arolwg. Cafwyd cadarnhâd gan Ifan y byddai'n siarad â'r contractwyr i drafod yr agwedd hon. Byddai canlyniadau yr arolwg drafft yn cael eu cyflwyno i Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Clafr yn ogystal â'r Grŵp hwn erbyn yr Hydref.

**Pwynt gweithredu 2 > Ifan i holi contractwyr yr arolwg ar yr hyn i'w wneud yn y cyfweliadau dilynol.**

**e) Y diweddaraf am BVD**

Eglurodd y Cadeirydd bod yr ymateb i'r cais BVD am gyllid gan Raglen Datblygu Gwledig – Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-20 i ddod yn ystod y bythefnos nesaf. Cytunodd Christianne i anfon ebost at y tîm polisi i holi am hynt y cais.

***Pwynt Gweithredu 3 > Christianne i anfon ebost at dîm polisi y Cynllun Datblygu Gwledig i holi am hynt y cais am gyllid BVD.***

**f) Diweddariad gan Dai/Moss ar gyfarfod Grŵp y Diwydiant Bwyd ar 17 Mawrth**

Bu Dai a Moss ym Mwrdd y Diwydiant Bwyd a Diod ar 17eg Mawrth. Eglurwyd iddi fod yn drafodaeth adeiladol iawn ar bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid i'r sector bwyd. Mae hyn yn cadarnhau yr angen i Grwpiau gydweithio mewn partneriaeth i sicrhau canlyniadau ehangach. Dywedodd Dai ei fod hefyd yn mynd i gyfarfod nesaf Bwrdd y Diwydiant Bwyd ym mis Medi. Cytunwyd y byddai aelod o Fwrdd y Diwydiant Bwyd yn cael ei wahodd i gyfarfod o'r Grŵp hwn yn y dyfodol.

***Pwynt Gweithredu 4 > Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd aelod o Fwrdd y Diwydiant Bwyd i gyfarfod yn y dyfodol.***

g) **Bwrdd Llywodraethu Cadw Golwg ar Iechyd Anifeiliaid**

Eglurodd y Cadeirydd bod Dirk Pfeiffer, Cadeirydd presennol y Bwrdd Llywodraethu Cadw Gwyliadwriaeth ar Iechyd Anifeiliaid yn gadael ei swydd. Eglurodd Christianne bod Gavin Watkins wedi bod yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Llywodraethu. Eglurodd Gavin ei fod wedi bod yn gyfarfod defnyddiol iawn, a'r drafodaeth wedi canolbwyntio ar ddatblygu papur fframwaith ar Gadw Golwg. Bydd y papur hwn yn cael ei anfon ymlaen i'r Grŵp ei ystyried maes o law. Roedd y Cadeirydd yn cadarnhau y byddai'n bresennol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Llywodraethu ym mis Medi.

**<u>Eitem 5 i'r Agenda: Diweddariad gan Brif Swyddog Milfeddygol Cymru</u>**

8. Cafwyd y newyddion diweddaraf gan Christianne fel a ganlyn;

**a) Y Newyddion wedi'r Etholiad**

Eglurodd Christianne bod Lesley Griffiths wedi ei phenodi yn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Eglurodd ei bod wedi cynnal cyfarfodydd cychwynnol gydag Ysgrifennydd y Cabinet i drafod y cylch gwaith iechyd a lles anifeiliaid. Cytunwyd ei bod yn bosibl y byddai cyfle yn y Sioe Frenhinol i aelodau gyfarfod yn anffurfiol gydag Ysgrifennydd y Cabinet.

***Pwynt gweithredu 5 > Yr Ysgrifenyddiaeth i dynnu sylw at y posibilrwydd o gyfarfod anffurfiol rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ac aelodau'r Grŵp Fframwaith yn y Sioe Frenhinol.***

**b) Cynllunio Busnes a Chyllidebau**

Eglurodd Christianne bod y gwaith yn mynd rhagddo i gytuno ar gynllun busnes OCVO ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredu AHWF 2016/17 sydd i gael ei gyhoeddi ddiwedd Gorffennaf. Eglurodd hefyd nad oedd dyraniadau terfynol y gyllideb ar gyfer 2016/17 wedi eu penderfynu eto.

**c) Cynllunio Wrth Gefn**

Cafwyd cadarnhad gan Christianne bod Cynllun Wrth Gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 i gael ei gyhoeddi yn fuan. Mae'r grŵp wedi gweld y drafft ac wedi cynnig sylwadau.

**d) Bluetongue**

Eglurodd Christianne fod y bygythiad o bluetounge yn parhau, gyda'r perygl ei fod yn cyrraedd Prydain dros y miosedd nesaf. Eglurodd y byddai'n cyrraedd naill ai drwy wybed neu drwy brynu anifeiliaid o ardaloedd sydd â risg uchel. Eglurodd y byddai'r brechlyn bluetounge ar gael o fis Gorffennaf ymlaen a bod angen i ffermwyr wneud y penderfyniad gyda'u milfeddyg i frechu eu buchesi. Cytunwyd y byddai Moss a Dai yn ystyried cynnwys y prif negeseuon yn eu cylchlythyrau.

***Pwynt Gweithredu 6 > Moss a Dai i roi prif negeseuon Tafod Las mewn cylchlythyrau. Yr ysgrifenyddiaeth i ofyn barn y tîm polisi ar glefydau anifeiliaid am y prif negeseuon i sicrhau cydweithio.***

e) **TB Buchol**

Eglurodd Christianne bod y gwaith wedi bod yn mynd ymlaen i adnewyddu'r strategaeth TB buchol. Mae'n debygol y bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn gwneud datganiad ar y Strategaeth TB newydd unwaith y bydd wedi cael y cyfle i ystyried y dystiolaeth i gyd.

**Y Sioe Frenhinol**

Eglurodd Christianne y byddai'n galw cyfarfod o sefydliadau sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru i gymharu cynlluniau sy'n gysylltiedig â iechyd a llesiant anifeiliaid i baratoi ar gyfer y Sioe Frenhinol. Bydd hyn yn gyfle hefyd i gymharu themâu ac i gadarnhau rhai negeseuon cyffredin. Eglurodd, yn dilyn y Sioe, y byddai'n galw cyfarfod dilynol i edrych ar Gynllun Gweithredu AHWF, eto i gymharu themâu a ble y mae'n bosibl gweithio mewn partneriaeth i gyflawni camau.

***Pwynt Gweithredu 7 > Christianne i alw cyfarfodydd o sefydliadau sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru i drafod iechyd a lles anifeiliaid.***

f) **Addysg Filfeddygol yng Nghymru**

Eglurodd Christianne y bu cyhoeddiad ar 13 Mehefin bod Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygol Brenhinol yn bwriadu cydweithio i ddatblygu rhaglen hyfforddi filfeddygol ar y cyd ar gyfer Cymru. Croesawodd y Grŵp y cyhoeddiad hwn a'r cynigion.

g) **Prif Swyddog Milfeddygol OCVO**

Eglurodd Christianne bod Gavin Watkins wedi ei benodi fel y Prif Swyddog Milfeddygol o fewn OCVO. Rhoddodd Gavin amlinelliad o'i swyddogaethau a'i gyfrifoldebau. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu y disgrifiad swydd a'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau milfeddygol.

***Pwynt Gweithredu 8 > Yr ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu papur disgrifiad swydd yr Uwch Swyddog Milfeddygol a swyddogaethau a chyfrifoldebau milfeyddygol.***

## Eitem 6 ar yr Agenda: Cyfraniad i Gynllun Gweithredu y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gyfer 2016/17 a'r camau nesaf

9. Eglurodd y Cadeirydd bod Grŵp AHWF Cymru wedi cynnal cyfarfod ar 25 Chwefror i drafod y blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu 2016/17.
10. Diolchodd Carol i'r aelodau am eu sylwadau ar y cynllun drafft. Eglurodd bod yn gwaith yn awr yn mynd ymlaen i gyhoeddi'r cynllun erbyn diwedd Gorffennaf.

**<u>Eitem 7 ar yr Agenda. Cyswllt Ffermio</u>**

11. Croesawodd y Cadeirydd Eirwen Williams, Dewi Hughes (Menter a Busnes) a Sarah Gould (Lantra) i'r cyfarfod. Croesawodd Laura Griffiths hefyd (Pennaeth y Gangen Cymorth Busnes Amaethyddol).

12. Eglurodd Laura bod gan Grŵp AHWF Cymru swyddogaeth allweddol yn helpu i osod cyfeiriad gwasanaethau Cyswllt Ffermio. Eglurodd bod gan y Grŵp Partneriaethau Strategol a Bwrdd y Diwydiant Bwyd ran i'w chwarae, gan gadarnhau yr angen i weithio mewn partneiraeth. Eglurodd hefyd y byddai cydweithwyr yn Menter a Busnes a Lantra yn rhoi amlinelliad o'r gwasanaethau a'r gweithgareddau y gallant eu darparu i'r Grŵp.

13. Eglurodd Eirwen bod y dulliau cyflawni ar gyfer Cyswllt Ffermio yn gysylltiedig â tair prif thema;

- Datblygu eich busnes
- Buddsoddi mewn sgiliau a mentora
- Darganfod arloesi

14. Eglurodd Sarah bod Lantra yn gyfrifol am ddatblygu'r Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes. Roedd yn canolbwyntio ar dri dull allweddol o gyflawni;
   - Cynlluniau datblygu personol
   - E-ddysgu
   - Hyfforddiant achrededig byr

15. Eglurodd Dewi weithgareddau Cyswllt Ffermio ledled Cymru, gan gynnwys ystadegau, safleoedd arddangos a throsolwg o rai o'r prosiectau sy'n cael eu datblygu.

16. Eglurodd Sarah bod Lantra yn chwilio am ba wybodaeth sydd eisoes ar gael i ffermwyr/coedwigwyr drwy wefannau presennol. Mae gwefan NADIS er enghraifft eisoes yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth ar bioddiogelwch gan gynnwys dull o asesu'r risg o fioddiogelwch. Eglurodd Christianne bod tri dull bioddiogelwch ar gyfer TB eisoes yng Nghymru. Byddai'n ddefnyddiol i ystyried y defnydd o'r model NADIS yng nghyd-destun y dulliau eraill sydd ar gael.

***Pwynt Gweithredu 9 > Sarah i anfon y ddolen i'r dull asesu risg bioddiogelwch NADSI at yr Ysgrifenyddiaeth.***

17. Eglurodd Laura bod y gwaith o adolygu strwythur llywodraethu Cyswllt Ffermio yn parhau a bod cyngor ar fin cael ei gyflwyno i Ysgrifenydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig maes o law. Fel rhan o'r strwythur newydd, bydd angen llenwi *templad cynnig* i roi rhagor o fanylion i gontractwyr Cyswllt Ffermio ar y blaenoriaethau sydd wedi'u pennu ar gyfer iechyd a llesiant anifeiliaid (a meysydd eraill).

18. Eglurodd Eirwen bod gwaith yn cael ei wneud hefyd i gasglu safbwyntiau pobl drwy holiadur am yr hyn yr oedd pobl am ei weld yn cael ei wneud fel rhan o'r Gwasanaeth Cyswllt Ffermio. Cafodd ebost comisiynu ei anfon at y Cadeirydd gan ei fod yn rhan o'r Bwrdd Cynghori Cyswllt Ffermio. Cytunwyd y byddai copi o'r holiadur drafft hefyd yn cael ei anfon at Christianne.

***Pwynt Gweithredu 10 > Laura i anfon copi i Christianne o'r holiadur drafft ar gyfer unrhyw sylwadau***

19. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyflwyniadau. Cytunodd y Grŵp bod cysylltu â Chyswllt Ffermio yn elfen hanfodol i helpu i gyflawni'r camau o fewn Cynllun Gweithredu AHWF Cymru.

**Eitem 8 ar yr Agenda: Cysylltu â'r Sector Lles**

20. Croesawodd y Cadeirydd Claire Lawson, Cadeirydd Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru i'r cyfarfod ac Irene Allen a Gareth Beili-Jones o Lywodraeth Cymru.

21. Rhoddodd Claire y newyddion diweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud ar ddiwygio'r codau ymarfer ar gyfer anifeiliaid anwes a cheffylau. Eglurodd bod tri gweithgor bychan wedi'u sefydlu gyda'r cyfarfodydd cyntaf i gael eu cynnal ym mis Gorffennaf. Eglurodd hefyd bod ebyst wedi eu hanfon at randdeiliaid ehangach i sicrhau bod cynifer â phosib o sefydliadau sydd â diddordeb yn cael yr opsiwn o fod yn rhan o bethau.

22. Roedd Christianne yn croesawu'r dull hwn o weithio. Eglurodd Irene mai yr amserlen arfaethedig oedd i anelu at ymgynghoriad cyhoeddus ar y codau yn yr hydref, er bod hyn an dibynnu ar nifer o ffactorau. Cytunodd i roi'r newyddion diweddaraf i'r Grŵp ar y datblygiadau.

***Pwynt Gweithredu 11 > Irene i ddarparu adroddiad cynnydd i'r Grŵp cyn eu cyfarfod ym mis Medi.***

23. Roedd rhywfaint o drafod ar y cysylltiadau ehangach ar draws portffolios, yn benodol iechyd y cyhoedd ac addysg. Cytunwyd y byddai angen rhagor o ystyriaeth i'r agweddau hyn dros y mis nesaf.

**Eitem 9 ar yr Agenda: Trafodaethau ynghylch Llesiant Anifeiliaid tra'n Teithio**

24. Cyflwynodd Gareth ei bapur ar Lesiant Anifeiliaid tra'n Teithio. Eglurodd mai'r cynnig oedd gofyn i'r Grŵp Fframwaith gymeradwyo ffordd o wella'r sylfaen dystiolaeth sy'n gysylltiedig â gorfodi Deddfwriaeth Lles Anifeiliaid tra'n Teithio; a chytuno i weithio gyda'r diwydiant i godi ymwybyddiaeth o arferion gwael.

25. Rhoddodd rhywfaint o ddata cychwynnol hefyd i'r Grŵp ei ystyried. Diolchodd y Cadeirydd i Gareth am ei bapur. Cytunodd y Grŵp, er eu bod yn cefnogi'r dull o weithio arfaethedig, roeddent yn teimlo bod angen mwy o waith i wella'r dystioaleth sydd eisoes wedi'i chasglu. Dywedodd Jo y gallai fod posibilrwydd am fenter ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd a Llesiant Anifeiliaid Lloegr. Cytunodd Christianne i godi'r mater â'r chydweithwyr yn Defra.

***Pwynt Gweithredu 12 > Gareth i weithio gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella'r dysgiolaeth sydd ar gael ac i gyflwyno data wedi'i fireinio i'r Grŵp ei ystyried.***

***Pwynt Gweithredu 13 > Christianne i godi'r cynnig ar Les anifeiliaid tra'n teithio gyda Defra.***

**<u>Eitem 10 ar yr Agenda: Unrhyw Fusnes Arall</u>**

26. Eglurodd Dai fod yr adroddiad "Improved food chain information and collection and communication of inspection results" wedi ei gyhoeddi. Eglurodd fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Grŵp Iechyd a Lles Gwartheg. Cytunodd y Grŵp i wahodd yr FSA i gyfarfod yn y dyfodol i drafod yr adroddiad hwn.

***Pwynt Gweithredu 14 > Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd i gyfarfod yn y dyfodol.***

27. Eglurodd Jo bod y prosiect Veterinary Futures i ddechrau ym mis Gorffennaf. Cytunodd y byddai copi o'r cynllun gweithredu yn cael ei ddosbarthu i'r Grŵp.

**Pwynt Gweithredu 15 > Jo i ddarparu copi o gynllun gweithredu prosiect y Veterinary Futures i'r Ysgrifenyddiaeth i'w ddosbarthu i'r Grŵp.**

28. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol gan gadarnhau bod y cyfarfod nesaf ar 13 Medi ym Mharc Cathays.

**CLOI**